Janani Luwum: 1922–1970

Damwain?

Dewrder / ffyddlondeb

Rhwng 1971 a 1979 roedd yr Arlywydd Idi Amin yn rheoli Uganda. Unben creulon oedd Amin. Roedd pawb oedd yn anghytuno ag ef mewn perygl einioes. Yn eu plith, roedd Cristnogion yn wynebu peryglon mawr. Un o'r rhain oedd Archesgob yr eglwys yn Uganda, sef Janani Luwum.

Dyn pwerus iawn oedd Amin. Roedd ganddo fyddin gref o filwyr. Pan fyddai'r Arlywydd yn rhoi gorchymyn, byddai'r milwyr yn gweithredu ar unwaith. Pwy bynnag oedd yn anghydweld ag ef byddai'n rhoi gorchymyn i'w filwyr i'w lladd. Byddai rhai o wrthwynebwyr Amin yn "diflannu". Doedd neb yn gwybod beth oedd yn digwydd i'r bobl hyn. Efallai eu bod nhw'n cael eu harteithio neu eu saethu.

Er bod Amin yn ddyn pwerus, roedd yn ddyn ofnus iawn. Roedd wedi gwneud cymaint o elynion. Pennaeth yr eglwys yn Uganda ar y pryd oedd yr Archesgob Janani Luwum. Roedd Amin yn ei gasáu am ei fod yn siarad ar ran y bobl gyffredin. Ond anodd iawn oedd arestio dyn fel Luwum. Doedd o ddim wedi gwneud unrhyw ddrwg o gwbl. Un noson, aeth milwyr o gwmpas y pentrefi. Daliwyd un o'r dynion a'i arteithio am bum diwrnod.

"Mae'n rhaid i ni gael enwau a chyfeiriadau pobl sy yn erbyn yr Arlywydd," meddai'r milwyr. Gwrthododd y dyn roi unrhyw enw o gwbl. Daliwyd ati i'w boenydio. Daliodd yntau i wrthod. Ar ôl pum diwrnod, ildiodd y gŵr gan ddweud yn wyllt, "Yr Archesgob Luwum."

Ymhen dwy awr roedd milwyr Amin yn curo ar ddrws yr Archesgob.

"Mae gynnau yn y tŷ yma," gwaeddasant dan wthio eu ffordd i mewn i balas yr Archesgob.

Yn ddyfal y buon nhw'n chwilio. Ond ni ddarganfuwyd dim. Arestiwyd yr Archesgob. Ar radio Uganda y diwrnod wedyn dywedwyd fod gynnau ac arfau wedi eu darganfod ym mhalas yr Archesgob. Ddiwedd yr wythnos galwyd yr Archesgob i balas Amin. Bu'n rhaid iddo eistedd yn llygad yr haul o fore gwyn tan ddau o'r gloch y pnawn. Roedd bron â llewygu.

Gorchmynnodd Amin i'w filwyr fynd allan o'r ystafell.

"Rydw i am gyf-weld y dyn hwn fy hun," meddai.

Ar y newyddion bore trannoeth cyhoeddwyd bod damwain fawr wedi digwydd a bod Archesgob Uganda wedi ei ladd. Roedd lluniau o'r ddamwain yn y papurau newydd. Gyda'r nos, roedd lluniau o'r ddamwain ar y teledu. Ond nid yr un car oedd yn y lluniau yn y papurau â'r rhai ar y teledu.

Fu yna ddim gwasanaeth angladd. Gwrthododd yr Arlywydd drosglwyddo'r corff i'w deulu. Yn ôl pob hanes, claddwyd corff yr Archesgob liw nos. Y Sul canlynol roedd yr Eglwys Gadeiriol yn orlawn. Roedd y bobl yn awyddus iawn i gofio am yr Archesgob. Fe fuon nhw'n canu *Emyn y Pasg* er mwyn dangos eu ffydd yn Nuw.

"Gwyn eu byd y tangnefeddwyr."
Mathew 5:9

Diolch i ti, O Dduw,
am bawb sy'n barod
i sefyll yn gadarn
dros yr hyn maen nhw'n gredu.
Amen.

Gallwn feddwl am bethau y buasem yn hoffi eu gwneud, ond ei bod hi'n anodd eu gwneud. Rhestrwch y pethau y gallwn i gyd eu gwneud i wneud cymdeithas well.